Canllaw Gwaith Celf (Uwchradd)

Nid oes angen bod yn artist proffesiynol i helpu disgyblion i greu gwaith celf uchelgeisiol ac ystyrlon – eich rôl chi yw creu'r amodau i chwilfrydedd, arbrofi a chyd-gefnogaeth ffynnu. Mae'r canllaw hwn yn cynnig cyngor ymarferol ar ddeunyddiau, paratoi a dulliau addysgu er mwyn helpu pob disgybl i greu gwaith celf unigryw o safon uchel y gallant ymfalchïo ynddo.

Deunyddiau

Papur – Rhaid iddo fod yn A4, ac yn ddelfrydol dylai fod yn bapur arlunio trwchus o ansawdd da a all wrthsefyll rhwbio egnïol a phaent gwlyb. Argymhellir papur dyfrlliw os ydych yn defnyddio llawer o baent gwlyb iawn.

Pensiliau – Mae ystod eang o bensiliau artistiaid ar gael. Rydym yn argymell **2B neu 4B** gan eu bod yn cynnwys mwy o graffit, gan alluogi creu arlliwiau tywyllach y gellir eu dileu os oes angen.

Deunyddiau lliwio – Acrylig, dyfrlliw, pasteli olew, creonau, paent parod… mae llawer o opsiynau i ddewis ohonynt. Ystyriwch y canlynol i'ch helpu i benderfynu:

- **Dewis** – Rhowch gyfle i ddisgyblion ddewis o ystod o ddeunyddiau a'u cefnogi i ddatblygu hyder wrth eu defnyddio.
- **Effaith** – Anogwch ddisgyblion i ddewis deunyddiau sy'n creu canlyniadau cryf a bywiog. Gall pensiliau lliw ymddangos yn olau neu'n ddiflas wrth eu harddangos ochr yn ochr â phaent acrylig a deunyddiau eraill sy'n fwy trawiadol, felly ystyriwch gynnig deunyddiau sy'n creu mwy o effaith. Rydym yn argymell yn gryf osgoi pennau ffelt.
- **Ansawdd** – Rhowch gyfleoedd i ddisgyblion arbrofi cyn dewis deunyddiau ar gyfer eu gwaith celf terfynol. Darparwch bapur bras ac amser i archwilio, gan gynnwys ymarfer cymysgu lliwiau i greu gwahanol arlliwiau o groen, lliwiau gwallt a lliwiau cydweddus. Gallai disgyblion ymarfer y technegau hyn ar y portread a grëwyd ganddynt yn Sesiwn 1.

Drychau bach – Amhrisiadwy ar gyfer hunanbortreadau. Efallai y bydd y rhain i'w cael yng nghypyrddau'r Adran Wyddoniaeth, neu gallech ofyn i ddisgyblion ddod â drychau colur o gartref ar gyfer Sesiynau 2 a 3. Fel arall, argraffwch luniau o'r disgyblion fel bod ganddynt ddelwedd i gyfeirio ati.

Brwshys – Dewiswch frwshys bach sy'n galluogi disgyblion i greu manylder a gweithio'n fanwl. Sicrhewch fod y brwshys yn dal digon o baent i greu marc gwastad heb i ormod o baent gronni a "sblotio".

Deunyddiau ychwanegol – Rwberi, miniogwyr pensiliau, byrddau gwyn/clipfyrddau, papur bras, potiau dŵr, ffedogau/dillad paentio.

Awgrymiadau i Athrawon

Paratowch eich stiwdio

Mae'r sesiynau'n llawn, felly **sicrhewch fod yr holl ddeunyddiau wedi'u paratoi cyn dechrau,** er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i ddisgyblion greu. Gofynnwch am wirfoddolwyr ar ddiwedd Sesiwn 1 i ddod yn gynnar a helpu i baratoi'r deunyddiau ar gyfer Sesiynau 2 a 3.

Sesiwn 1: Gweithgaredd Portread o Bartner

Trefnwch y disgyblion fel y gallant weld eu partner a'u papur ar yr un pryd, heb orfod symud eu pennau.

Byddwch yn ymwybodol o symbolau

Ffocws y prosiect yw adeiladu pontydd rhwng gwahaniaethau. Gofynnwn ichi **annog disgyblion i fod yn sensitif wrth ddefnyddio symbolau, gan osgoi baneri** a delweddau eraill a allai wneud i eraill deimlo eu bod wedi'u heithrio neu eu targedu.
Bydd llawer o ddisgyblion am gynnwys tueddiadau cyfoes yn eu gwaith celf, boed yn ddelweddau o gemau fideo, cymeriadau o ffilmiau neu ymadroddion y mae disgyblion ledled y byd yn eu defnyddio. Er y gall hyn fod yn ffordd wych i ddisgyblion fynegi eu diddordebau, gall gyfyngu ar ddyfnder eu meddwl am eu hunaniaeth. **Anogwch ddisgyblion i feddwl yn ddyfnach** am yr hyn sy'n eu gwneud yn unigryw a thynnu lluniau o'r pethau hynny. Bydd hyn yn creu gwaith celf mwy dilys yn ogystal ag arddangosfa fwy diddorol.

Dathlu Gwahaniaeth

Y mae Arlunio Gobaith yn gyfle gwych i ddathlu amrywiaeth yn eich dosbarth. P'un a ydynt yn cynrychioli partner (Sesiwn 1) neu eu hunain (Sesiynau 2 a 3), **anogwch ddisgyblion i arsylwi a chynrychioli gwahaniaethau gyda gofal a pharch**. Eglurwch beth yw gwawdlunio a stereoteipio, ac anogwch arsylwi gofalus heb i ddisgyblion orliwio na lleihau nodweddion. Sicrhewch fod gennych ddeunyddiau ar gael i gynrychioli ystod eang o arlliwiau croen, a byddwch yn ymwybodol o ddisgyblion a allai deimlo'n anghyfforddus yn cael eu nodi neu eu hamlygu oherwydd nodwedd warchodedig. Os yw sylwadau'n tynnu sylw at wahaniaeth, ewch i'r afael â nhw'n sensitif a **chreu cyfleoedd priodol i oedran y disgyblion iddynt fyfy**rio, heb dynnu sylw yn ormodol at unigolion penodol. Wrth iddynt dynnu llun, byddwch yn agored ynghylch y gwahaniaethau y maent yn sylwi arnynt, gan hefyd annog disgyblion i sylwi ar y tebygrwydd rhyngddynt.

Cynigiwch chwilfrydedd, nid canmoliaeth

Yn hytrach na mynegi cymeradwyaeth o waith celf unigol neu wneud rhagdybiaethau am yr hyn y mae disgybl yn ei arlunio, **dangoswch chwilfrydedd** am eu dewisiadau. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall nad oes un ffordd "gywir" o greu celf.

Defnyddiwch gwestiynau agored a gwahoddiadau i fyfyrio wrth gyfeirio at agweddau penodol, megis *"Beth wnaeth i ti ddewis y lliw hwn?"* neu *"Dywed wrthyf am ddewis rwyt ti wedi'i wneud."* Defnyddiwch y meini prawf llwyddiant i helpu disgyblion i feddwl am **sut** y maent yn creu eu gwaith celf yn ogystal â **beth** y maent yn ei greu. Y nod yw annog disgyblion i ddatblygu eu syniadau a dod yn fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau artistig.

Cymerwch amser

Er bod hyd y sesiynau'n gyfyngedig, gallwch **helpu disgyblion i arafu ac edrych yn ofalus.** Gall disgyblion dueddu i neidio'n syth i ddefnyddio deunyddiau, felly anogwch nhw i arsylwi'n ofalus cyn dechrau tynnu llun. Gofynnwch iddynt ddechrau'n ysgafn, gan ddefnyddio eu pensil "fel pluen", a datblygu eu delwedd yn raddol fesul haen.

Modelwch y broses

Mae Rima Stains, artist hyfryd o Ddyfnaint, yn dweud os yw llun oedolyn yn edrych fel gwaith plentyn pump oed, mae'n debyg mai dyna'r oedran y gwnaethant roi'r gorau i dynnu lluniau. Nid oes angen i chi deimlo'n hyderus neu'n "dda" am gelf er mwyn modelu chwilfrydedd ac ymrwymiad i'ch ymarfer creadigol eich hun. **Archwiliwch ddeunyddiau ochr yn ochr â'r disgyblion, gwnewch ddarganfyddiadau a rhannwch yr hyn y gallech roi cynnig arno'n wahanol y tro nesaf**. Mae bod yn ddysgwr yn rhoi caniatâd i ddisgyblion wneud camgymeriadau, arbrofi a dal ati.